Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 743 (Cy. 128)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 (“Rheoliadau 2003”) yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol, sydd fel arfer yn cael ei rannu yn ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol, ac i ysgolion gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae’r Rheoliadau hyn yn rhoi paragraff (1) newydd yn lle’r un presennol yn rheoliad 5 o Reoliadau 2003 i ddarparu na fydd mwy na dwy sesiwn yn y flwyddyn ysgol 2025-2026 yn cyfrif fel sesiynau pan gyfarfu’r ysgol, os yw’r sesiynau hynny wedi eu neilltuo (yn llwyr neu’n bennaf) i unrhyw un neu ragor o’r materion a ragnodir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Arweinyddiaeth, Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 743 (Cy. 128)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025

*Gwnaed* *23 Mehefin 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *25 Mehefin 2025*

*Yn dod i rym* *22 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551(1) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Gorffennaf 2025.

(**1**) 1996 p. 56; mewnosodwyd adran 551(1A) gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Atodlen 7, paragraff 39; diwygiwyd adran 551(2) gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), Atodlen 30, paragraff 166 ac Atodlen 31 a chan O.S. 2010/1158; diwygiwyd adran 569(4) gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 8(5); diddymwyd adran 569(5) gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2), Atodlen 1, paragraff 4(30)(c) ond ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn nid yw'r diddymiad hwnnw mewn grym eto. Am ystyr "regulations" gweler adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), Atodlen 11, paragraff 30.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003**

**2.** Mae rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y flwyddyn ysgol 2025-2026 sydd wedi ei neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i ddarparu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill) neu i baratoi a chynllunio, mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol—

(a) lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol;

(b) gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**2**) ar gyfer disgyblion yn yr ysgol;

(c) y cwricwlwm sydd i'w ddarparu yn yr ysgol o dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**3**);

(d) y trefniadau asesu sydd i'w gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.", a

(b) ym mharagraff (2), yn lle "ym mhob blwyddyn ysgol" rhodder "yn y flwyddyn ysgol 2025-26".

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
23 Mehefin 2025

(**1**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S. 2011/149 (Cy. 33), O.S. 2012/248 (Cy. 41), O.S. 2019/1131 (Cy. 196), O.S. 2020/848 (Cy. 187), O.S. 2021/1476 (Cy. 378), O.S. 2022/61 (Cy. 23) ac O.S. 2023/37 (Cy. 4).
(**2**) 2018 dccc 2.
(**3**) 2021 dsc 4.